**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
–
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

21 Ebrill 2022

Annwyl Weinidog,

Byddwch yn ymwybodol mai un o flaenoriaethau strategol y Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd yw 'diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol'. Er mwyn llywio ein gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb i'r cwestiynau a nodir isod.

COP15

Rydym yn ymwybodol bod pymthegfed cyfarfod Cynhadledd y Partïon (COP15) sy'n rhan o'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) wedi bod yn destun rhagor o oedi a'i fod bellach yn debygol o gael ei gynnal ym mis Awst 2022.

1. A allwch egluro a fydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli yn COP15, ac os felly, sut?

2. A allwch amlinellu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020 a sut mae'n ceisio dylanwadu ar ganlyniad COP15?

Ymarfer trylwyr ar fioamrywiaeth a thargedau bioamrywiaeth statudol

Dywedoch wrthym y bydd yr ymarfer trylwyr ar fioamrywiaeth yn cael ei gychwyn ar ôl hanner tymor mis Chwefror gyda'r nod o gwblhau'r trafodaethau manwl ym mis Mai. Rydych hefyd wedi ymrwymo i rannu Cylch Gorchwyl yr ymarfer trylwyr gyda ni. Nid yw'r Cylch Gorchwyl ar gael eto.

3. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at yr ymarfer trylwyr, gan gynnwys aelodau'r grŵp a fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn?

Dywedoch wrthym fod swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chymheiriaid eraill yn y DU drwy Grŵp Bioamrywiaeth y Pedair Gwlad a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i ddatblygu set gyffredin o egwyddorion.

4. A allwch roi rhagor o fanylion am y gwaith hwn, gan gynnwys diben y set gyffredin o egwyddorion, ac a fyddant yn cael eu defnyddio a sut cânt eu defnyddio i lywio targedau bioamrywiaeth statudol a llywio polisïau yn y dyfodol?

## Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Nodwn eich bod wedi llunio canllawiau ar yr egwyddorion amgylcheddol i sicrhau eu bod yn cael eu hymgorffori mewn polisïau a phenderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru.

5. A allwch egluro a yw'r canllawiau ar gael i'r cyhoedd?

Dywedoch wrthym fod swyddogion wedi parhau i weithio ar ddatblygu dull parhaol o lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru, ac y bydd y dull yn destun ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid.

6. A allwch roi amserlen ddangosol ar gyfer yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol?

## Polisi Adnoddau Naturiol

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol (y **Polisi Adnoddau Naturiol** ar hyn o bryd) ar ôl pob etholiad cyffredinol.

7. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol, gan gynnwys yr amserlen ddangosol rydych yn gweithio oddi mewn iddi ar gyfer cyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol diwygiedig?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i’r cwestiynau uchod cyn gynted â phosibl, ac erbyn 19 Mai fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith